Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



Gweithdy Sgwadiau Sgwennu'r Ifainc Yn Arddangosfa Artes Mundi, Caerdydd     Llun © Llenyddiaeth Cymru

## Rheolwr Datblygu

**Cytundeb penodol 1 blwyddyn, rhan-amser (cyfnod mamolaeth)     £23,000 - £28,000 pro rata**

**Lleoliad: Caerdydd     Dyddiad cau: 14 Mai 2018     Cyfweliadau: 2 Mai 2 2018**

**I ddechrau: cyn gynted â phosib**

---

### Llenyddiaeth Cymru

**Amdanom ni**

Llenyddiaeth yw un o'r ffurfiau celfyddydol mwyaf hygyrch. Trwy gydol ein bywydau mae straeon ym mhobman o'n hamgylch; mewn llyfrau, ar bosteri, ar sgriniau, ar lwyfan ac ar-lein. Caiff geiriau ysgrifenedig a llafar eu plethu i'n cyffroi ac i wneud i ni chwerthin. Mae geiriau yn ein diddanu, ein haddysgu a'n hysbrydoli.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn credu'n gryf bod llenyddiaeth yn perthyn i bawb ac ar gael ym mhobman. Mae ein gwaith yn dathlu ac yn cefnogi'r gair ysgrifenedig a llafar. Cawsom ein sefydlu yn 2011 fel cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth yng Nghymru. Rydym yn arwain y sector ac yn cydweithio â sefydliadau ac unigolion sy'n hyrwyddo, creu a mwynhau llenyddiaeth yng Nghymru.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn cynnwys Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. Rydym yn galluogi a hwyluso gweithgarwch mewn lleoliadau amrywiol:  trwy noddi gweithdy barddoniaeth Minecraft mewn ysgol; gweithio gyda phrifysgol ar elfen allestyn o brosiect academaidd; neu gysylltu â busnesau lleol ynglŷn â chomisiynau barddoniaeth gyhoeddus gan Fardd Cenedlaethol Cymru.

Rydym yn rhoi cyngor arbenigol ar awduron addas a sut i drefnu digwyddiadau, yn ogystal â chynnig arian tuag at gostau gweithgaredd. Mae'r rôl hon fel hwylusydd yn golygu bod ein harbenigedd a'n gwybodaeth am y sector yn cyfrannu at weithgarwch cynaliadwy, parhaus, sy'n cefnogi twf creadigrwydd yng Nghymru.

Bob blwyddyn, rydym yn cyrraedd dros 140,000 o gyfranogwyr gan gynnwys 45,000 o bobl ifanc drwy ein gweithgareddau llenyddol mewn cymunedau dros Gymru. Rydym yn cynhyrchu £1.87M ychwanegol i'r economi yn flynyddol. Rydym yn hyfforddi awduron i weithio gyda grwpiau ac oedrannau amrywiol i hyrwyddo'r arlwy o weithgaredd llenyddol sydd ar gael. Mae Llenyddiaeth Cymru hefyd yn cynnal rhaglenni sy'n cynorthwyo ein hawduron i greu a chyflwyno gwaith newydd a pharhau gyda'u datblygiad proffesiynol.

Rydym yn cyflawni prosiectau uchelgeisiol sy'n cyfrannu at oresgyn rhai o'r heriau a wynebwn heddiw. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdai gyda charcharorion i ysgrifennu straeon i'w darllen i'w plant; cynnal cyrsiau yn Nhŷ Newydd ar gyfer cyn-ddefnyddwyr cyffuriau; a gweithio gyda'r gymuned Sipsi Roma i ddatblygu ffilmiau ac animeiddiadau byr a ysbrydolwyd gan Roald Dahl. Drwy raglenni megis Llên Pawb, rydym yn dangos bod llenyddiaeth yn rhan o gymdeithas fwy cydlynol, iach a chymhellol.

Drwy weithio gyda phobl ifanc drwy fentrau Awdur Pobl Ifanc Cymru a Bardd Plant Cymru, mae Llenyddiaeth Cymru yn deall bod hoffter o eiriau yn dechrau'n gynnar. Pŵer stori i ddal dychymyg plant ifanc iawn yw'r garreg gamu at lythrennydd gydol oes.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn aelod o Bortffolio Celfyddydau Cymru Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydym yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig. Mae gennym 21 o staff yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, Gwynedd ac yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd. Rheolir gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr.

---

**Diwrnod ym mywyd Rheolwr Datblygu yn Llenyddiaeth Cymru**

Yn ystod diwrnod gwaith arferol byddwch yn amldasgio; o gysylltu â busnesau at ddibenion nawdd, cynllunio creadigol, ysgrifennu cyflwyniadau a cheisiadau am nawdd, cefnogi ceisiadau grant pobl eraill, dyfeisio a chyflwyno ymgyrchoedd codi arian digidol a rheoli prosiectau. Mae llawer o'r gwaith yn gofyn am feddwl dyfeisgar, a'r gallu i roi sylw i fanylder a sgiliau pobl ardderchog.

Ar rai dyddiau bydd gofyn i chi hefyd reoli digwyddiadau, ac fe fyddwch yn cynrychioli Llenyddiaeth Cymru mewn cyfarfodydd ac mewn cyfleoedd rhwydweithio ar draws y trydydd sector a'r sectorau preifat a chyhoeddus. Byddwch yn mynd ar nifer o ymweliadau gwaith i Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd .

Rydym yn dîm o staff positif, ymroddedig a bywiog sy'n gweithio'n galed mewn dwy swyddfa yng Nghaerdydd a Llanystumdwy.

---

## Ynglŷn â’r rôl

Y Rheolwr Datblygu sy’n gyfrifol am **arwain gwaith codi arian y sefydliad**, gan sicrhau cysondeb, afliniad strategol ac effeithiolrwydd. Mae’r rôl yma’n cynnwys cyfrifoldeb uniongyrchol am geisiadau grant sylweddol, ac yn goruchwylio gweddill ceisiadau y sefydliad. Yn ogystal, bydd y Rheolwr Datblygu yn arwain ar ddatblygu a gwneud y gorau o ffrydiau incwm amrywiol, gan gynnwys ffynonellau masnachol a nawdd corfforaethol. Mae **datblygu perthnasau newydd ac effeithiol gyda phartneriaid busnes** yn hanfodol bwysig.

Mae'r Rheolwr Datblygu hefyd yn cefnogi cydweithwyr wrth gynllunio neu fireinio gweithgaredd, ac yn cyfrannu at weithgaredd cyfredol i gryfhau gweithdrefnau monitro a gwerthuso Llenyddiaeth Cymru.

Mae'r rôl yn cynnwys:

- Arwain gweithgaredd codi arian y sefydliad ym mhob maes, gan gynnwys:
  - Sefydlu a cheisio nawdd ar gyfer prosiectau a mentrau newydd yn unol â gweledigaeth strategol a chynllun gweithgaredd Llenyddiaeth Cymru
  - Datblygu perthnasau hirdymor â darpar bartneriaid corfforaethol a sicrhau nawdd busnes ar gyfer o leiaf dau brosiect blaenllaw
  - Datblygu ffrydiau incwm masnachol newydd, a gwneud y gorau o’r rheiny sy’n bodoli eisoes, gan gynnwys manwerthu
  - Cyflwyno ymgyrchoedd codi arian sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa
  - Cydlynu ac ysgrifennu'r holl geisiadau grant canolig (£10,000 - £ 30,000) a mawr (> £ 30,000), gan gynnwys cais sydd eisoes dan ddatblygiad gydag ariannwr trydydd sector o bwys
  - Goruchwylio pob cais grant bach (<£10,000) a gyflwynir gan aelodau'r staff

- Cyfrannu at Gynllun Strategol 2019-2022 Llenyddiaeth Cymru sy'n cael ei ddatblygu eleni, gan gynnwys creu Strategaeth Codi Arian 2019-2022
- Cefnogi a hwyluso codi arian ar gyfer y sector llenyddiaeth ehangach, gan gynnwys cyd-ysgrifennu ceisiadau am nawdd gyda phartneriaid cymunedol
- Cyfrannu at y gwaith sydd eisoes ar y gweill i gryfhau gweithdrefnau monitro a gwerthuso Llenyddiaeth Cymru, gan gynnwys arwain ar brosesau cipio a dadansoddi data er mwyn dangos effaith Llenyddiaeth Cymru i ddarpar noddwyr
- Cefnogi cydweithwyr wrth ddatblygu neu fireinio gweithgaredd newydd a gweithgaredd sydd eisoes yn bodoli, gan ddysgu oddi wrth gweithdrefnau monitro a gwerthuso cryfach
- Cefnogi'r weithrediaeth wrth reoli prosiectau, yn arbennig wrth oruchwylio cyfleoedd menter masnachol
- Unrhyw dasgau eraill yn ôl y gofyn

Adrodd wrth:

• Y Dirprwy Brif Weithredwr

---

## Addasrwydd ar gyfer y rôl

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar y sgiliau hanfodol, y profiad a'r nodweddion personol canlynol:

- Sgiliau cyfathrebu Saesneg ardderchog, yn ysgrifenedig a llafar
- Sgiliau cyfathrebu Cymraeg ardderchog yn ysgrifenedig a llafar NEU agwedd bositif tuag at yr iaith Gymraeg a pharodrwydd i ddysgu
- Profiad o **ddatblygu a rheoli perthnasau yn y sector corfforaethol, sydd wedi cael effaith amlwg**
- Profiad o weithredu **ymgyrchoedd codi arian digidol** llwyddiannus
- Profiad o **gynhyrchu cyllid masnachol**
- Profiad o **ddatblygu ceisiadau llwyddiannus am grantiau sylweddol**
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o fonitro a gwerthuso effeithiol o fewn y trydydd sector
- Profiad o gyfrannu i gynllunio strategol ar lefel sefydliadol
- Agwedd bositif, broffesiynol gyda lles y tîm yn ganolog iddo
- Sgiliau trefnu rhagorol a'r gallu i roi sylw i fanylder a'r gallu i weithio o dan bwysau
- Gwybodaeth ymarferol o *Microsoft Office suite* (neu debyg)

Mae trwydded yrru lawn a mynediad at gar hefyd yn ddymunol.

---

## Sut i wneud cais

1. Darllenwch yn ofalus y swydd ddisgrifiad ac adran addasrwydd ar gyfer y rôl yn yr hysbyseb hwn. Yn ogystal, darllenwch Gynllun Busnes Llenyddiaeth Cymru 2016-2019 yma.

2. Ysgrifennwch lythyr heb fod yn fwy na thair tudalen A4 **NEU** crëwch gais fideo (mae'r ddau fformat yn dderbyniol ac o werth cyfartal). Darparwch fideo, dim mwy na saith munud o hyd, fel dolen Dropbox. Dywedwch y canlynol wrthym:

   - Eich enw, cyfeiriad post, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost
   - Pam fod diddordeb gennych yn y rôl ac mewn cyfrannu at waith Llenyddiaeth Cymru
   - Y sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau perthnasol i'r rôl hwn yr ydych yn eu meddu
   - Eich tri chyflawniad proffesiynol gorau a pham yr ydych yn falch ohonynt
   - Unrhyw wybodaeth ychwanegol am eich profiad a'ch diddordebau yr ydych chi'n teimlo sy'n berthnasol i'r rôl yma

3. Anfonwch y canlynol at post@llenyddiaethcymru.org:

   - Eich llythyr neu gais fideo
   - Eich CV (heb fod yn fwy na thair tudalen A4) a manylion dau ganolwr sy'n eich adnabod mewn cyd-destun proffesiynol. Byddwn ond yn cysylltu â chanolwyr ar ôl i gynnig o gyflogaeth gael ei dderbyn.

**Beth sy'n digwydd nesaf:**

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **Dydd Llun 14 Mai 2018**.

Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfweliad yn swyddfa Llenyddiaeth Cymru yng Nghaerdydd ar Ddydd Iau 24 Mai 2018, gyda dyddiad dechrau'r swydd cyn gynted â phosib wedi i'r cynnig gael ei dderbyn.

Bydd cyfweliadau yn dechrau gyda chyflwyniad 10 munud o hyd gan yr ymgeiswyr am yr effaith y byddent yn ei greu yn ystod y penodiad blwyddyn. Byddwn yn darparu Strategaeth Codi Arian Llenyddiaeth Cymru 2016-2019 ynghyd a diweddariadau i'w defnyddio wrth lunio'ch cyflwyniad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni. Galwch 029 2047 2266 i siarad â Bronwen Price neu e-bostiwch hi'n uniongyrchol at bronwen@llenyddiaethcymru.org. Neu, os hoffech sgwrsio ar Skype, rhowch wybod ac fe drefnwn alwad. Croeso i chi ymweld â'r swyddfa o flaen llaw a chwrdd â'r tîm, gellir trefnu hynny'n rhwydd.

---

**Ein polisi recriwtio**

Mae Llenyddiaeth Cymru yn rhan o raglen Weston Jerwood Creative Bursaries, sy'n cefnogi mudiadau celfyddydol yn eu hymdrechion i ehangu eu hagwedd tuag at recriwtio a datblygu talent amrywiol. Rydym wedi ymrwymo at groesawu ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd, sy'n cynnwys asesu ceisiadau yn rhannol ar sail cryfder potensial. Os hoffech ymgeisio am y swydd hon, ond yn ansicr os oes profiad digonol gennych, cysylltwch â ni am sgwrs anffurfiol.